**Gŵyl GWLAD**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

13 Rhagfyr 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 4 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth ganlynol:

*Annwyl Syr,*

*A fyddech cystal â nodi'r swm o arian y talwyd i Carole Cadwalladr fynychu a siarad yng Ngŵyl GWLAD yn y Senedd yn ddiweddar?*

*Hoffwn ddiolch i chi am unrhyw help ymlaen llaw.*

*Yn gywir,*

Gweler yr ymateb isod.

Gallaf gadarnhau nad oes gennym y wybodaeth y gofynnir amdani. Nid yw Comisiwn y Cynulliad wedi gwneud unrhyw daliadau uniongyrchol i Carole Cadwalladr ar gyfer Gŵyl GWLAD a gynhaliwyd yn y Senedd yn ddiweddar.

Gweithiodd Comisiwn y Cynulliad ar y cyd â llawer o ddarparwyr a sefydliadau allanol i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau yn ystod Gŵyl GWLAD. Rhagwelwyd mai £29,000 oedd y costau sy'n gysylltiedig â ffioedd perfformwyr, partneriaethau digwyddiadau, gigs cerddoriaeth a chomedi, teithio a llety ar gyfer digwyddiadau Gŵyl GWLAD yng Nghaerdydd, a'r swm sydd wedi'i wario ar hyn o bryd yw £27,086.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu yn ysgrifenedig at:
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF